


Mae Ysgol A wedi bod yn gatref i 513 o ddisgyblion ers 2022. Mae'r ysgol or farn gyda help a chydweithrediad bod unrhywbeth yn bosib, mae datganiad yr ysgol yn pwysleisio hyn "Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd."

Gyda chynnydd sylweddol yn tlodi ers Covid 19 mae'r ysgol wedi mabwysiadu nifer o dactegau er mwyn ceisio lleihau'r effaith mae tlodi yn gallu cael ar ddisgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol yn cytuno gyda damcaniaeth yr athronydd Bronfenbrenner sef bod ffactorau allanol yn gallu cael effaith sylweddol ar ddatblygiad plentyn am hyn felly mae'r ysgol yn cynnig stratagaethau er mwyn lleihau'r effaith er enghraifft mae gwersi coginio defnyddio cynhwysion rhad yn cael i gynnal i deuluoedd bregys yn ogystal ar y ffordd mewn l'r ysgol mae stondyn cotiau am ddim ar gael i ddisgyblion sydd methu fforddio côt yn ystod tymor y Gaeaf.

Dechrau wrth fy nhraed



Mae'r ysgol yn credu'n gryf bod cyswylt gyda rhieni yn rhan allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant ym myd addysgu eu plant. Am hyn felly mae'r ysgol yn credu'n gryf bod angen cynnal nifer o weithgareddau er mwyn sicrhau bod rhieni yn gwybod ac yn deall sut i gefnogi eu plant tu allan i'r ysgol. Er enghraifft mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau agored i rhieni er mwyn cyflwyno'r themau bydd eu plant yn dysgu am yn ystod y flwyddyn. Bwriad y gweithgareddau yma yw i gael rhieni i ddiddori ac cefnogi addysg eu plant.

Wrth i'r gymdeithas ar byd moderneiddio mae plant yn datblygu ffurfiau newydd o addysgu er enghraifft mae rhai plant yn hoffi dysgu mewn modd mwy ymarferol nag eraill. Am hyn felly mae Ysgol A am sicrhau bod ystod o gyfleoedd ar gael i blant i ddysgu mewn ffyrdd gwahanol. Enghraifft o hyn yw ar safle'r ysgol mae ysgol goedwig, sydd yn rhoi cyfle i'r plant i ddysgu'n ymarferol yn yr awyr agored. Mae nifer o staff yn Ysgol A wedi cael i hyfforddi gan gwmni allanol i ddysgu yn yr Ysgol Goedwig i sicrhau bod y gwersi sydd yn cael i gynnal yna o werth l'r disgyblion. Mae'r ysgol goedwig yn caniatáu i blant i ddysgu trwy chwarae ac i ymfalchio yn y cyfleoedd mae'r ysgol yn darparu.



Mae'r ysgol yn ymwybodol bod y nifer o siaradwyr cymraeg yng Nghymru wedi disgyn yn dilyn canlyniad cyfrifiad 2021. Am hyn felly mae Ysgol A yn ymwybodol bod dyletswydd gan ysgolion Cymru i hybu'r iaith Gymraeg am hyn felly mae'r ysgol yn dilyn her yr Siarter iaith yn y gobaith o hybu'r defnydd o'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r ysgol. Nid dim ond y disgyblion sydd yn cymryd rhan yn y Siarter iaith ond mae staff yr ysgol yn ogystal a rhieni yn cymryd rhan er enghraifft mae gwersi Gymraeg yn cael i ddarparu i rhieni sydd methu siarad Gymraeg yn y gobaith o fewn amser bydd modd i'r rhieni yma siarad Gymraeg gyda'u plant yn y catref.

Mae'r cwricwlwm newydd yn chwarae rhan allweddol yn addysg plant Ysgol A. Mae'r ysgol yn sicrhau bod gofynion y cwricwlwm yn cael i gwrdd mewn modd hwylus er mwyn sicrhau bod eu plant yn uchelgeisiol, mentrus, gwybodus ac iach. Mae'r cwricwlwm newydd yn gofyn am addysg gynhwysol o fewn yr ystafell ddosbarth ac mae Ysgol A yn sicrhau hyn trwy ddysgu am draddodiadau crefyddau gwahanol trwy gydol y flwyddyn. Mae'r ysgol yn gwahodd unigolion o grefyddau gwahanol i gynnal sesiynau am grefyddau penodol. Unwaith eto mae Ysgol A yn defnyddio'r gymuned ehangach er mwyn annog eu plant i fod yn agored tuag at syniadau gwahanol.

Yn ogystal mae theori yr athronydd Maslow i weld yn glir yn Ysgol A. Mae'r theori yn pwysleisio cyn i blant cyrraedd eu potensial llawn mae angen bodloni cyfres o anghenion megis anghenion seicolegol sy'n golygu bod gan pob plentyn mynediad i fwyd. Mae Ysgol A yn bodloni'r angen yma trwy ddarparu prydiau ysgol am ddim i 9.5% o'r disgyblion er mwyn sicrhau bod eu anghen seicolegol yn cael i gwrdd. Os nad yw'r anghenion yma yn cael i gwrdd mae'r risg o beidio cyrraedd eu gwir potensial yn cynyddu.